



MA-L-VG-0647-18

Llyr Gruffydd AC (Cadeirydd)
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd

20 Tachwedd 2018

Annwyl Llyr,

Ymhellach i'r dystiolaeth a roddais yn y Pwyllgor Cyllid ar 7 Tachwedd am y Bil Awtistiaeth, nodaf isod yr wybodaeth ychwanegol y cytunais i'w darparu i'r pwyllgor. Mae hyn yn cynnwys materion yn ymwneud â'r dull o ddatblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil, bylchau yn y dadansoddiad ariannol a nodir yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil, a gwybodaeth ychwanegol am gostau gwelliannau i wasanaethau fel y nodir yng Nghynllun Strategol presennol Llywodraeth Cymru ar gyfer Awtistiaeth, a gaiff ei lywio gan God Ymarfer statudol arfaethedig.

Pryderon cyffredinol am yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Roedd rhai o aelodau'r pwyllgor yn pryderu nad oedd Llywodraeth Cymru wedi darparu gwybodaeth am gostau'r Bil, yn arbennig o ran darparu'r gwasanaethau diagnostig helaethach y mae'r Bil yn ceisio'u rhoi ar waith. Esboniais nad yw'r wybodaeth hon ar gael yn ganolog gan Lywodraeth Cymru. Er mwyn deall costau gwasanaeth diagnostig helaethach, ni fyddai'r broses y dylai unrhyw un ei dilyn, boed yn Aelod Cyfrifol neu Lywodraeth Cymru, yn ddim gwahanol. Fel y disgrifiais yn y pwyllgor, er mwyn asesu'r costau hyn byddai angen gweithio gyda byrddau iechyd lleol i geisio diffinio costau o'r fath drwy dynnu gwybodaeth o'u gwybodaeth reoli. Byddai'r Aelod Cyfrifol wedi gallu comisiynu economegydd iechyd i arwain ymarfer o'r fath. Nid rôl y Llywodraeth yw comisiynu gwaith o'r fath mewn cysylltiad â chyfres o gynigion nad ydym yn cytuno â hwy - ni fyddai hynny wedi bod yn ddefnydd darbodus o arian cyhoeddus. Rôl yr Aelod Cyfrifol yw darparu asesiad o'r fath, felly dylai cwynion ynghylch absenoldeb y wybodaeth honno gael eu cyfeirio at yr Aelod Cyfrifol.

Mynegiant gwael o effaith y Bil, gan gynnwys diffyg budd

O ran y prif effeithiau ariannol, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ceisio nodi costau cael gwared ar yr ôl-groniad o unigolion sy'n aros rhwng 13 wythnos a 26 wythnos ar hyn o bryd am asesiad diagnostig. Nid yw, fodd bynnag, yn cyfrifo costau ychwanegol parhaus cyrraedd y targed amser aros 13 wythnos hwnnw yn y dyfodol. Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, mae'r Gymuned Ymarfer ar gyfer Diagnosis Oedolion ac Ymarferwyr Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig¹ wedi nodi y byddai cydymffurfio â'r Bil yn golygu cyllid sylweddol uwch i fodloni'r gostyngiad yn yr amseroedd aros.

Yn hanfodol, nid oes unrhyw ystyriaeth o ran o ble y daw'r capasiti clinigol ychwanegol i leihau amseroedd aros yn gyflymach nag a wneir ar hyn o bryd. Er bod Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn capasiti clinigol ar draws yr amrywiaeth o gyflyrau iechyd, yr unig ffordd i fodloni amcanion y Bil fyddai dargyfeirio capasiti clinigol cyfyngedig o wasanaethau cefnogol i asesiadau diagnostig. Mae hyn yn ddiffyg budd sylweddol yn y ddeddfwriaeth, y dylid ei fesur yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nhermau'r effaith negyddol ar ganlyniadau i bobl ag awtistiaeth, lle y byddai gwasanaethau cefnogol yn cael eu lleihau. Yn ogystal â bod yn fwch mawr yn yr Asesiad, Effaith Rheoleiddiol, mae'r diffyg asesiad hwn hefyd yn wall sylfaenol yn y ddeddfwriaeth.

Ar ben hynny, nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn gwneud unrhyw asesiad o ran a fydd y galw am ddiagnosis yn cynyddu gydag amser, a'r costau sy'n gysylltiedig â hyn. Mae'r diagnosis o gyflwr yn rhan bwysig o ddiwallu anghenion unigolyn, ond mae rhoi'r argraff bod diagnosis, fel mae'r Bil yn ei wneud, yn 'docyn aur' i wasanaethau, yn gwneud mwy na chodi disgwyliadau afrealistig. Mae'n debygol o ysgogi'r galw am asesiad, a hefyd yn rhoi pwysau ar glinigwyr i wneud diagnosis cadarnhaol. Mae trafodaethau diweddar rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion o Gynulliad Gogledd Iwerddon yn dangos y bu cynnydd sylweddol mewn cyfraddau atgyfeirio a diagnosis ers 2014, ac mae hyn wedi'i gysylltu â chyflwyno deddfwriaeth awtistiaeth.

Nid oes dim ystyriaeth, chwaith, o unrhyw gostau ychwanegol ar gyfer ymestyn y Bil i gynnwys cyflyrau eraill, fel y mae'r Aelod Cyfrifol wedi'i awgrymu wrth roi tystiolaeth i'r pwyllgor. Byddai hynny'n debygol o olygu costau uwch drwy ysgogi'r galw am ddiagnosis, a diffyg budd wrth i adnoddau cyfyngedig gael eu cyfeirio o wasanaethau cefnogol i asesiadau diagnostig.

Pwyntiau manwl eraill am yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Mae hefyd nifer o bwyntiau mwy manwl am ddibynadwyedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

- Dim ond dau opsiwn a gyflwynir. Mae hyn yn arfer gwael gan ei fod yn hepgor opsiynau anstatudol neu 'wneud y lleiafswm' rhag cael eu hystyried, er eu bod o bosibl yn cynrychioli gwell gwerth am arian.
- Nid yw'n glir pryd y disgwylir i'r costau a nodwyd godi. Caiff blynyddoedd ariannol eu nodi fel 'Blwyddyn 1 / Blwyddyn 2' yn hytrach na nodi blynyddoedd penodol, e.e. 2020-2021.
- Cyflwynir y costau i'r bunt agosaf. Mae hyn yn gwneud rhai o'r tablau, er enghraifft Tabl 7 yn anodd iawn eu darllen. Yn bwysicach na hynny, mae'n awgrymu lefel ffug o gywirdeb yn y dadansoddiad a allai, felly, roi'r argraff o hyder yn y cyfrifiadau. O gofio nifer y tybiaethau a ffynonellau data a ddefnyddir yn y dadansoddiad, ni chredaf y gellir cyfiawnhau hyn.

¹ Y Gymuned Ymarfer ar gyfer Diagnosis Oedolion ac Ymarferwyr Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig (2018). Tystiolaeth i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon. <http://senedd.assembly.wales/documents/s78889/A09%20-%20Community%20of%20Practice%20for%20Adult%20Diagnosis%20and%20Integrated%20Autism%20Service%20Practitioners.pdf>

- Mae tabl crynodeb yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dangos mai'r flwyddyn ar gyfer y sylfaen pris yw 2017. Fodd bynnag, mae pennawd Tabl 5 yn awgrymu bod y costau'n seiliedig ar brisiau 2013/14. Nid yw'n glir a yw'r costau yn Nhabl 15 wedi cael eu huwchraddio i lefelau prisiau 2017. Os nad ydynt, dylid uwchraddio'r prisiau gan ddefnyddio mynegiant chwyddiant addas.
- Mae Opsiwn 2 hefyd yn cynnwys anghysonderau. Un enghraifft o hyn yw cyfrifo costau casglu data. Mae Paragraff 372 yn nodi y byddai angen 0.5 swyddog ymchwil Gradd 7 cyfwerth ag amser llawn, ond mae Paragraff 378 yn nodi gofyniad o hanner diwrnod yr wythnos. Ynghyd â'r anghysonderau, mae rhai o'r amcangyfrifon o gostau a ddarperir yn gymharol eang, gydag ychydig iawn gyfrifiadau manwl. Mae hyn i'w weld amlycaf yn y testun ar becynnau hyfforddi newydd ac ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth.
- Mewn cysylltiad ag Opsiwn 2, nid yw'n glir i ba raddau y mae'r costau a gaiff eu disgrifio yn ychwanegol at y rhai sydd wedi codi eisoes wrth ddarparu deddfwriaeth bresennol, yn arbennig Deddfau Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ac Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg.
- Ymddengys fod rhai darpariaethau eraill yn y Bil yn dyblygu gweithgareddau presennol megis ymgyrch codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant. Nid yw'n bosibl i'm swyddogion fesur unrhyw gyfrif dwbl heb ymgysylltu'n sylweddol â'r Aelod Cyfrifol i ddeall beth sydd ei angen drwy'r darpariaethau hynny o'r Bil.
- Nodaf fod yr Aelod Cyfrifol wedi hysbysu'r Pwyllgor am y camgymeriad yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ynghylch cyfrifyddu manteision posibl y Bil. Dylid cywiro'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a dylid darparu tystiolaeth bellach i esbonio sut y gallai'r darpariaethau yn y Bil gyflawni'r arbedion hyn mewn costau.

Costau Gweithredu'r Cod Ymarfer Awtistiaeth

Diben y Cod Ymarfer fydd cynnal a chryfhau'r gwaith o ddarparu Cynllun Gweithredu Strategol presennol Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig, a byddaf yn cyhoeddi dogfen ymgynghori ar hyn ddiwedd y mis hwn. Cefnogir y cynllun hwn gan gostau blynyddol o tua £730,000 i ddarparu'r rhaglen waith, £13 miliwn i ddarparu'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig tan fis Mawrth 2021 a £2 filiwn y flwyddyn i gefnogi gwelliannau i wasanaethau niwroddatblygiadol plant.

Bydd y cod yn atgyfnerthu'r dyletswyddau presennol a roddir ar Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a Deddf y GIG. Nid wyf yn rhagweld y bydd angen unrhyw gyllid ychwanegol i wasanaethau gael eu llunio mewn ffordd sy'n gyson â'r cod. Efallai, fodd bynnag, y bydd risg o ran cyflawni'r Cynllun Gweithredu Strategol yn y dyfodol pe bai'r Bil yn dod yn ddeddfwriaeth.

Yn gywir,



Vaughan Gething AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services